CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg HYDREF 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng J Evans, G Jones, J E Lewis, Ms N Dafydd, Miss B Owen, R G Parry, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU: Cyng W R Parry, Mrs L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng J E Lewis Rhif 9. Diddymu Bodffordd Cyf.

CAEL COFNODION 19ed MEDI 2023 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng R R Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafwyd nodyn gan y Cadeirydd (Wedi ei drafod gyd`r Clerc yn gyntaf) Copi i bob aelod o`r Cyngor.
Cynnwys oedd:-
Siaradwr a sydd yn torri y rheolau.
Pan mae grwp mewn lle yn arwain cyfarfod a rhywun yn torri y rheolau, mae rhaid rhoi atal ar y person. Os bydd aelodau o`r Cyngor angen cydnabyddiaeth o`r Gadair, peidiwch a gadael aelod y Cyngor siarad rhywbeth allan o dwrn. Os ydyw erfyniaeth o`r rheol yn ddefnyddiol. Gellir neb siarad yr ail waith nes bydd pawb wedi siarad unwaith. Peidio a gadael hen law gael ail gyfle i siarad pan mae etholwyr newydd yn disgwyl yn amyneddgar am ei twrn.
Trafodwyd yr uchod a derbyniwyd yn unfrydol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2023/199. Cais llawn ar gyfer codi Sied Ardd yn:-
   43, Cae`r Delyn, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng G Jones.

2. FPL/2023/265. Cais llawn ar gyfer codi 3 uned clampio, un cwt feiciau, un cwt bin un cwt gwasanaeth, man parcio newydd. Ynghyd a gwaith cysylltiedig yn :-
   Tawelfryn, Tynlon.
   Gwrthwynebiad. Peryglon y lon mor gul i ffasiwn ddatblygiad. Cyfeirio i`r Adran Priffyrdd.
   Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng R R Roberts.

3. HHP/2023/171. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   3 Pen y Bonc, Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng R G Parry.

PENDERFYNIADAU.

4. FPL/2023/185. Cais llawn ar gyfer codi Sied Amaethyddol yn;-
   Rhymer, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn y canlyniad.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Cyfarfodydd / Rhaglen Waith y Fforwm Cyswllt.
   Amylder Cyfarfodydd.
   Bwriad Anelu at Gynnal Pedwar Cyfarfod y Flwyddyn y Patrwm Canlynol:-
   Er mwyn trafod y cynigion Cyllideb Blynyddol ym misoedd Mehefin, Medi, Rhagfyr, Chwefror.
   Amseriad y cyfarfodydd yn ddibynnol ar amser Llywodraeth Cymru.
   Cytunwyd bydd pob Cyngor yn cael gwahoddiad unigol i rhoi ei cyflwyniad o`r cynigion o ran eitemau, fe wnaed rhai awgrymiadau. Recordio cyfarfodydd Cynghorau a Chymuned.
   Fandaliaeth - Trafodaethy gyda`r Heddlu.
   Awgrymiadau cael gwybodaeth erbyn 3ydd Tachwedd 2023.
   Y Cyngor yn derbyn ac yn gefnogol.

6. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Cefnogi Pobl Dementia. Oriel Mon yn rhan o gynllun Cenedlaethol.
   Wedi ymuno ledled Cymru i greu rhaglen cymorth a dysgu.
   Dwyieithog. Gweithio ar brosiect House of Memories Cymru a Phartneriaeth ag Amgueddfeydd Genedlaethol Lerpwl a Llywodraeth Cymru. Mwy o wybodaeth ar lein.
   Derbyn y wybodaeth.

7. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Mannau Gwefru Cerbydau Trydan yn Boblogaidd ar Ynys Mon.
   Wedi ei gosod er Awst 2022.
   Amlwch, Caergybi, Llangefni a Porthaethwy.
   Wedi ei defnyddio bron 5,000 o weithiau. (digon i deithio 390,768 milltir)
   Derbyn. Edrych yn dda, sut bydd yn y blynyddoedd nesaf.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Cyngor ar Bopeth.
   Gwahoddiad : Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022 - 2023.
   Tachwedd 9ed 2023 am 3.00yh Yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi neu Zoom.
   Derbyn y gwahoddiad ond nid oedd llawer o ddidordeb i fynychu.

9. Diddymu Bodffordd. Cyf. T Victor Hughes Ysgrifennydd Statudol.
   Mae cyfrifoldebau yn y dyfodol, dau gafn blodau (un ger Bronheulog) a llall yn gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) Mae pedwar arwydd ar y cyrion sydd yn croesawu / ymbil ar ymwelwyr i yrru`n ofalus. Teimlant y dylai Corff Statudol fod yn gyfrifol i`r amser i ddod. A fuasai y Cyngor Cymdeithas mewn sefyllfa i ystyried.
   Yn y gorffennol y costau blynyddol oedd treuliau o gwmpas £50 - £75 i adnewyddu rhai o`r blodau. R`oedd y llafur yn rhad ac am ddim gan yr aelodau.
   Trafodwyd y cynnwys a pasiwyd i gymryd y cyfrifoldeb i`r dyfodol. (2 gafn blodau a phedwar arwydd) Y Cyngor yn edrych am gyfraniad 10 mlyneddd sef £750.00.

Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng R R Roberts. (Nid oedd gwrthwynebiad)
Cyng J E Lewis yn datgan diddordeb.

RHODDION.

10. Dim.

PLWYFOL.

11. Torri Fynwent Gymunedol, Bodffordd. 2023 - 2024.
Mae Mr Nigel Williams yn fodlon gwneud y gwaith eto am yr un bris ac eleni £1,000.
Trwy gynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones pasiwyd i dderbyn. Pawb yn gytun.

Pan yr oeddem yn trafod y Fynwent r`oedd Cyng J E Lewis yn galw am gael cyfarfod ar y safle. I drafod yr Hysbysford a marcio mannau claddu. (Er ei fod wedi ei wneud amser yn ol, mae y cynllun yn llyfr recordio marwolaethau.)
Bydd cyfarfod Dydd Iau Tachwedd 2ail 2023 am 10 y bore. Y Clerc yn methu a dod ar Ddydd Iau.

MATERION ARIANNOL.

16. Cyfrif Rhedegol £15,849.25.

17. Mynwent Gymunedol £7,390.00.

TALIADAU:

18. Clerc £450.00. N Williams (Torri glaswellt Fynwent Gymunedol) £500.00. I G Jones. Cyfrifydd £240.00

Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng G Jones.

D Owen (Clerc)